Bwletin Gweithlu Gofal Sylfaenol

Mawrth 2021

GIG CYMRU NHS WALES
Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)



Annwyl gydweithwyr,

Dyma ein hail Fwletin Gweithlu Gofal Sylfaenol sy'n rhoi amrywiaeth o ddiweddariadau i chi ar beth rydyn ni'n ei wneud yn Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) i gefnogi blaenoriaethau'r gweithlu mewn gofal sylfaenol. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn ddefnyddiol i chi wrth i ni ddechrau cynllunio ar gyfer yr adferiad, ac ailosod o ganlyniad i'r pandemig, gan sicrhau ein bod wedi dysgu llawer o'r adegau anodd rydyn ni i gyd wedi'u cael. Diolch hefyd i bawb sydd wedi ein helpu i gynnal ein gweithgareddau addysg a hyfforddiant hollbwysig yn ystod y cyfnod hwn, ac am yr arloesi a'r creadigrwydd sydd wedi bod yn amlwg yn yr ymateb i'r pandemig. Rydym yn awyddus i ddefnyddio hyn i barhau i wella a chryfhau datblygiad y gweithlu aml-broffesiwn ym maes gofal sylfaenol.

Mae croeso i chi rannu hwn a rhoi adborth ar **HEIW@wales.nhs.uk.**

Cofion cynnes,



Alex Howells
(Prif Weithredwr AaGIC)



Dr. Chris DV Jones
(Cadeirydd AaGIC)

Amdanom ni

Sefydliad GIG gafodd ei sefydlu yn 2018 i lywio'r gwaith o drawsffurfio'r gweithlu iechyd yng Nghymru.

Ein nod yw darparu un corff i GIG Cymru i ddatblygu ymagwedd integredig a chynhwysfawr o ran cynllunio a datblygu'r gweithlu iechyd. Rydym yn rhoi ffocws canolog ar addysg a hyfforddiant, yn ogystal â swyddogaethau sylweddol eraill gan gynnwys cynllunio'r gweithlu a gwybodaeth, datblygu arweinyddiaeth, moderneiddio'r gweithlu a gyrfaoedd. Rhan hanfodol o'n rôl yw sicrhau ein bod yn ychwanegu gwerth a budd oran gwelliannau sydd eu hangen ym mhrofiad gofal a staff.

Wedi'i sefydlu fel yr Awdurdod Iechyd Arbennig cyntaf, mae AaGIC yn gweithredu ochr yn ochr â Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd GIG fel aelod rhif un ar ddeg odeulu GIG Cymru.

Llunio'r dyfodol

Fframwaith addysg a hyfforddiant aml-broffesiwn ar gyfer gofal sylfaenol a chymunedol

Er gwaethaf y pandemig, rydyn ni wedi gallu gosod rhai sylfeini ar gyfer sut gallwn ni ddarparu addysg a hyfforddiant rhagorol i'r tîm aml-broffesiwn mewn lleoliadau gofal sylfaenol a chymunedol. Daeth tua 200 o bobl o amrywiaeth o gefndiroedd a phroffesiynau i weithdai ym mis Hydref i drafod yr hyn oedd ei angen o ddull Cymru gyfan, tuag at ddatblygu fframwaith addysg a hyfforddiant gofal sylfaenol a chymunedol – ac rydym wedi **cynhyrchu'r papur gweledigaeth hwn o ganlyniad i'r adborth hwnnw**. Mae'r fframwaith addysg a hyfforddiant hwn yn hanfodol i ategu at y model gofal sylfaenol a nodir yn Cymru Iachach, ac i gynnal a gwella addysg a hyfforddiant ar gyfer y tîm aml-broffesiwn. Un o'r prif amcanion fydd cynllunio a darparu hyfforddiant a datblygiad o safon uchel i'r holl grwpiau proffesiynol, yn seiliedig ar safonau clir a chyson, gan adeiladu ar yr ymarfer rhagorol presennol mewn perthynas â Hyfforddiant Meddygon Teulu. Fodd bynnag, rydym yn rhagweld dros amser y bydd hyn yn arwain at fwy o fanteision o ran recriwtio, cadw a chynllunio'r gweithlu, ac o bosibl yn cyfrannu at ddull gweithredu sy'n fwy "seiliedig ar leoedd", ar gyfer addysg a hyfforddiant y dyfodol.

Rydym yn adeiladu ar yr arferion da presennol sydd eisoes yn digwydd yn lleol ac o fewn Byrddau Iechyd, a phrifysgolion, yn ogystal â dysgu o ddulliau arloesol sy'n datblygu ledled y DU. Rydyn ni eisiau gwneud lle gwych i hyfforddi a gweithio ym maes gofal sylfaenol, ni waeth beth yw eich cefndir proffesiynol.

Ar ôl cael cefnogaeth mewn egwyddor i'r dull gweithredu, rydym nawr yn gweithio drwy fanteision ac anfanteision gwahanol fodelau darparu, ac yn archwilio'r cwricwlwm a'r seilwaith addysgu y bydd angen eu sefydlu.

I gael rhagor o wybodaeth, i roi eich adborth neu i ofyn cwestiwn, cysylltwch â: **HEIW.PrimaryCare@wales.nhs.uk**.

Ymateb i COVID

Cefnogi'r gweithlu imiwneiddio mewn gofal sylfaenol

Mae'r ymateb i'r pandemig wedi golygu bod angen datblygu gweithlu imiwneiddio'n gyflym, ac rydym wedi gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i adnewyddu'r uned ddysgu Cynorthwyydd Gofal Iechyd (Nyrsio) - Rhoi Pigiadau ac Imiwneiddiadau, sy'n rhan o **Ddiploma Lefel 3 Agored Cymru mewn Cymorth Gofal Iechyd Gofal Sylfaenol (Ymarfer Cyffredinol Cymru).**

Lle bynnag y bo modd, mae'r dysgu wedi cael ei addasu a'i drawsnewid yn fodiwl cyfunol, gan sicrhau bod hyfforddiant ar gael yn hawdd a'i fod yn gallu cael ei gyflwyno mewn ffordd fwy hyblyg ac amserol.

Mae'r hyfforddiant hwn yn ein galluogi i uwchsgilio Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd gyda'r cymwyseddau a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i imiwneiddio, gan gynyddu nifer y staff sydd eu hangen ar gyfer y rhaglen brechu torfol.

Mae'r model hyfforddi newydd yn cael ei gyflwyno ledled Cymru erbyn hyn ac mae wedi cael adborth cadarnhaol:

> "Ffordd lwyddiannus o ddarparu a chefnogi hyfforddiant yn yr amseroedd eithriadol hyn."

> "Mae dysgu ar gael pan fydd yn addas i'r dysgwr."

> "Mae cyfathrebu ac ymgysylltu rhwng y tiwtor a'r dysgwyr yn cael ei reoli'n well ac yn fwy effeithiol mewn lleoliad rhithiol."

(Adborth gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr).

Ehangu ein darpariaeth rithiol ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Rydym nawr yn cynnig mwy o ddigwyddiadau ac adnoddau DPP ar-lein i gynyddu cyfleoedd dysgu a datblygu parhaus i feddygon teulu a'r gweithlu gofal sylfaenol ehangach, gyda chefnogaeth ein Huned Cymorth Ailddilysu.

Ynghyd â'n llyfrgell bresennol o dros 40 modiwl ar amrywiaeth o bynciau clinigol ac anghlinigol, mae gwefan DPP y Meddygon Teulu bellach hefyd yn cynnwys digwyddiadau dysgu rhithiol a chynnwys ar-alw.

Dan arweiniad ein tri Arweinydd DPP rhanbarthol, Dr Nicola Flower, Dr David Lupton a Dr Nimish Shah, cafodd ein digwyddiadau DPP wyneb yn wyneb eu disodli yr hydref diwethaf gyda digwyddiadau dysgu rhithiol am ddim, i ddiweddaru gwybodaeth glinigol am amrywiaeth o bynciau. **Archebwch le yn ein digwyddiadau rhithiol sydd ar y gweill**.

Mae DPP Ar-alw yn galluogi gwylwyr i wylio digwyddiad dysgu wedi'i recordio o'n rhaglen wedi'i chyflwyno dros y we, ar adeg sy'n gyfleus iddyn nhw.

Cyfres o fideos byr **yw Vitals** sy'n rhoi cyfleoedd dysgu byr i chi am bynciau allweddol fel sepsis, iechyd trawsryweddol, cymorth Orbit360 a'n hychwanegiad newydd at y gyfres, anaffylacsis.

Atal a rheoli heintiau mewn pandemig

Mae'r pandemig wedi tynnu sylw at bwysigrwydd hanfodol atal a rheoli heintiau'n effeithiol, ac mae gan addysg rôl allweddol i'w chwarae. Mae AaGIC yn arwain gwaith gyda phartneriaid ar draws prifysgolion, GIG Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru a Llywodraeth Cymru, i ddatblygu cyfres o adnoddau addysg a hyfforddiant i gefnogi arferion Atal a Rheoli Heintiau ledled Cymru, yn seiliedig ar 'Fframwaith Hyfforddiant, Dysgu a Datblygu Atal a Rheoli Heintiau Cymru Gyfan'.

Bydd modiwlau hyfforddi Lefel 1 i Lefel 3 ar gael yn ystod y misoedd nesaf i gryfhau'r hyfforddiant gorfodol presennol ar gyfer Cymru gyfan, yn ogystal â datblygu modiwlau ar gyfer staff penodol e.e. arweinwyr clinigol ar lefel ward/adrannol ac mewn Gofal Sylfaenol. I ategu at yr hyfforddiant a gynigir, bydd yn cynnwys pwysigrwydd ffactorau dynol i atgyfnerthu a chynyddu ymwybyddiaeth staff am bwysigrwydd a dylanwad ymddygiad mewn ymarfer clinigol. Bydd yr hyfforddiant hwn ar gael ar draws sectorau. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â **Lisa.Bassett3@wales.nhs.uk**.

I gefnogi'r uchod, mae AaGIC wedi recriwtio ar gyfer swydd arweinydd y rhaglen Atal a Rheoli Heintiau, a rhagwelir y bydd yr unigolyn a benodir yn dechrau ym mis Mai. Mae dwy brif agwedd ar y broses o gyflwyno, yn gyntaf, rhaid adolygu'r hyfforddiant a ddarperir i'r gweithlu Atal a Rheoli Heintiau sy'n cynghori ac yn arwain staff ar draws gofal Sylfaenol ac eilaidd yn ystod achosion a phandemig. Yn ail, byddant yn trawsnewid cyfansoddiad y gweithlu Atal a Rheoli Heintiau i sicrhau ei fod yn gynaliadwy ac yn addas i weithio ar draws sectorau, gan gynnwys y sectorau Sylfaenol, eilaidd a chartrefi gofal.



Cefnogi'r gweithlu cartrefi gofal

Mae AaGIC yn parhau i weithio gyda phartneriaid i gefnogi'r sector cartrefi gofal drwy'r argyfwng presennol a thu hwnt. Mae'r gwaith yn cynnwys cefnogi unigolion sy'n gweithio mewn cartrefi gofal i wneud hyfforddiant nyrsio. Dechreuodd 12 o unigolion eu hyfforddiant yn 2020, gan godi i 15 yn 2021. Hefyd, mae cynllun peilot Hwylusydd Addysg Ymarfer Cartrefi Gofal wedi'i gynllunio ar gyfer ardal Hywel Dda i archwilio'r potensial ar gyfer lleoliadau sector cartrefi nyrsio/cartrefi gofal ar gyfer myfyrwyr nyrsio a gofal iechyd cysylltiedig, ac anghenion hyfforddi goruchwylwyr ac aseswyr ymarfer.

Datblygiadau mewn deintyddiaeth

Datblygu hyfforddiant deintyddol craidd mewn ymarfer deintyddol cyffredinol

Rydym yn creu llwybr gyrfa newydd mewn gofal deintyddol sylfaenol yn dilyn llwyddiant blwyddyn beilot gyda swyddi “Datblygu Gyrfa” ym maes Ymarfer Deintyddol Cyffredinol. Bydd rhaglen Hyfforddiant Deintyddol Craidd newydd mewn Ymarfer Deintyddol Cyffredinol yn cael ei chyflwyno ym mhob Bwrdd Iechyd yng Nghymru o 1 Medi 2021 ymlaen.

Bydd hon ar gael i Ddeintyddion yng Nghymru sydd wedi cwblhau eu Hyfforddiant Deintyddol Sylfaenol ac sydd am ddatblygu eu sgiliau a’u gwybodaeth glinigol ymhellach gan weithio yn y Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol. Bydd y swyddi 12 mis yn cynnwys 4 diwrnod yr wythnos mewn Deintyddfa Gyffredinol ac 1 diwrnod yr wythnos yn gysylltiedig â’r diwrnodau astudio Hyfforddeion Deintyddol Craidd sy’n rhedeg yn un o’r canolfannau ôl-radd yn Ysbyty Glan Clwyd, Ysbyty Llandochau, Ysbyty Treforys ac Ysbyty’r Tywysog Siarl.

Mae’r swyddi hyn yn rhoi cyfleoedd ac anogaeth i ddeintyddion ifanc ddatblygu eu gyrfaoedd ymhellach ym maes Ymarfer Deintyddol Cyffredinol yng Nghymru, gan helpu i fynd i’r afael â rhai o’n heriau i’r gweithlu a gwella mynediad at ofal deintyddol i gleifion.

I gael rhagor o wybodaeth am y swyddi hyn, cysylltwch â **Helen.O’Hara@wales.nhs.uk**.

Ailgynllunio’r gwaith o ddarparu hyfforddiant Cynnal Bywyd Sylfaenol ar gyfer gweithwyr deintyddol proffesiynol

Ym mis Tachwedd 2020, fe wnaethom lansio modiwl cyfun yn llwyddiannus ar gyfer gweithwyr deintyddol proffesiynol sy’n gweithio ym maes gofal Sylfaenol, i’w galluogi i gwblhau eu hyfforddiant cynnal bywyd sylfaenol yn ystod COVID. Mae’r hyfforddiant hwn yn un o ofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) ac mae’n ofynnol i bob gweithiwr iechyd deintyddol proffesiynol wneud yr hyfforddiant unwaith y flwyddyn.

Cydweithiodd ein cydweithwyr Deintyddol, Fferylliaeth a Digidol yn AaGIC i addasu modiwl cynnal bywyd sylfaenol ar-lein a oedd wedi cael ei ddatblygu ar gyfer y proffesiwn Fferylliaeth. Mae’r modiwl ar-lein yn gofyn i’r defnyddiwr gwblhau a phasio dau asesiad yn llwyddiannus, ac mae’r deunydd wedi’i achredu gan y Cyngor Dadebru (DU).

Ar ôl cwblhau’r modiwl ar-lein yn llwyddiannus, ategir at hyn gan asesiad cymhwysedd ymarferol yn y ddeintyddfa. Mae swyddogion dadebru sydd wedi’u comisiynu yn bresennol, gan ddilyn mesurau cadw pellter cymdeithasol llym a chydymffurfio â rheolau Covid sydd ar waith.

Mae’r rhai sydd wedi dilyn yr hyfforddiant wedi’i ganmol yn fawr a dywedodd un deintydd fod “y cwrs yn ardderchog. Roedd y tîm cyfan wir wedi’i fwynhau. Roedd y cwrs wedi’i strwythuro i fod yn hawdd ei ddeall ac roedd y rhyngweithio ar y cwrs wedi bod o gymorth mawr i’r dysgu. Byddai’n wych pe bai’r cwrs hwn ar gael eto yn y dyfodol.”

Hyd yma, mae 1,243 wedi cwblhau’r rhaglen hyfforddiant ar-lein.

Diolch yn arbennig i Debra Roberts, Deon Cysylltiol (Fferylliaeth), Pennaeth Datblygu Rhaglenni ac Ymarfer Uwch a Kate Lyons [Dirprwy Reolwr Busnes (Deintyddiaeth)] am wneud hyn yn bosibl, ac am ddangos gwerth cydweithio effeithiol drwy waith amlddisgyblaethol yn AaGIC ac ar draws y proffesiynau

Datblygiadau mewn practis cyffredinol

Fframwaith cymhwysedd nyrsys practis cyffredinol

Bydd AaGIC yn arwain y gwaith o ddatblygu fframwaith cymhwysedd mewn dull gweithredu "unwaith i Gymru", i'w roi ar waith drwy Nyrsio Practis Cyffredinol; ar hyn o bryd mae gan Fyrddau Iechyd eu fframweithiau eu hunain.

Bydd y fframwaith cymhwysedd yn sicrhau bod gan Nyrsys Practis Cyffredinol y sgiliau cywir a'u bod yn cael eu hystyried yn gymwys i wneud tasgau sy'n cefnogi diogelwch cleifion, drwy gynnig dull safonol drwy'r fframwaith.

Mae wir angen y fframwaith i helpu i gefnogi'r Nyrsys Practis Cyffredinol gyda'u llwybr gyrfa a'u cymwyseddau presennol, yn unol â disgrifiad a diffiniad y swydd. Yn anffodus, mae'r cynnydd wedi bod yn araf oherwydd pandemig parhaus Covid ac mae AaGIC yn ddiolchgar i'r Nyrsys Practis Cyffredinol sy'n cefnogi'r darn hwn o waith ar adeg anodd; fodd bynnag, gobeithir cwblhau'r gwaith yn Ebrill 2021.

Dylai unrhyw un sydd â diddordeb mewn cefnogi'r darn hwn o waith gysylltu â **Kerri.Eilertsen-Feeney2@wales.nhs.uk**.

Rhaglen Hyfforddiant Sylfaen Integredig Hydredol (LIFT)

Yn ystod hyfforddiant LIFT, mae'r hyfforddai'n treulio 4 diwrnod yr wythnos mewn lleoliad ysbyty ac un diwrnod yr wythnos mewn practis meddyg teulu. Mae hyn yn galluogi'r hyfforddai i gyd-destunoli beth maent wedi'i ddysgu yn y lleoliad ysbyty i'r lleoliad gofal sylfaenol. Dangoswyd bod y math hwn o hyfforddiant yn cynhyrchu meddygon mwy cyfannol ac sy'n canolbwyntio mwy ar y claf, sydd hefyd â gwell dealltwriaeth o'r holl system gofal iechyd, ac sy'n ymddangos fel pe baent yn meddu ar y cymwyseddau gofynnol yn gyflymach. Ym mis Awst 2020, roedd lleoliadau LIFT mewn pedwar Cynllun Hyfforddi Arbenigol Meddygon Teulu - Gwent, Cymoedd Morgannwg, Caerfyrddin a Bangor. Rhoddwyd y cyfle i 12 o hyfforddeion fynd ar rota LIFT. Mae LIFT yn ehangu i bedair ardal arall o fis Awst 2021 – Abertawe, Caerdydd, Pen-y-bont ar Ogwr a Wrecsam. Ar hyn o bryd rydym yn nodi practisiau meddygon teulu i dderbyn meddygon LIFT, a gallai nifer y lleoliadau sydd ar gael o fis Awst 2021 fod dros ddwbl y nifer presennol.

Cynllun Cynefino a Gloywi Meddygon Teulu

Mae Cynllun Cynefino a Gloywi y DU ar gyfer meddygon teulu cymwys sydd heb fod yn y gweithlu meddygon teulu ers 2 flynedd neu fwy, a meddygon teulu sydd wedi cymhwyso dramor nad ydynt erioed wedi gweithio yn y GIG. Y pwrpas yw darparu sesiwn gynefino ar gyfer Practis Cyffredinol y DU a chaniatáu i'r meddyg gasglu tystiolaeth ddigonol eu bod yn barod i weithio'n annibynnol fel meddyg teulu, a chael eu cynnwys ar y Rhestr o Berfformwyr Meddygol. Ar ôl cynnal asesiadau sy'n cynnwys prawf datrys problemau clinigol a llawdriniaeth ffug i asesu eu hanghenion dysgu, mae'r rheini sy'n sgorio'n uwch na'r marc gofynnol yn cael cynnig lleoliad cynefino dan oruchwyliaeth yn un o'n Practisiau Hyfforddi Pellach. Ar hyn o bryd mae gennym 8 meddyg ar wahanol gamau yn y broses hon.

Datblygiadau mewn fferylliaeth

Trawsnewid Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol i Fferyllwyr (IETP)

Cymeradwyodd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (GPhC) safonau newydd ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr yn eu cyfarfod ym mis Rhagfyr 2020. Bydd y safonau hyn yn trawsnewid yr addysg a'r hyfforddiant sydd ar gael ar hyn o bryd, a bydd yn gofyn am gyfle strategol i gyflwyno newidiadau fesul cam rhwng 2021 a 2026. Bydd y trawsnewid yn galluogi fferyllwyr i gael mwy o gyfrifoldeb o ran darparu gofal clinigol i gleifion a'r cyhoedd o'u diwrnod cyntaf ar y gofrestr, gan gynnwys rhoi presgripsiwn am feddyginiaethau'n annibynnol.

Canlyniad cydweithio helaeth â chyflogwyr, cyrff addysg statudol, sefydliadau addysg uwch a chyrff proffesiynol, yn ogystal â Llywodraethau a'r cyhoedd yw'r safonau, ac ar bob cam, mae'r safonau wedi cael eu datblygu yn unol â nodau allweddol y GIG yng Nghymru a'i strategaeth fferylliaeth.

Bydd yr IETP yn darparu cyfres newydd o ddeilliannau dysgu a fydd yn cael eu defnyddio i asesu'r pum mlynedd lawn o addysg a hyfforddiant, a bydd yn cysylltu â chontinwwm datblygiad i lwybrau ôl-gofrestru ar gyfer y rhai sy'n cofrestru.

Bydd y bumed flwyddyn o addysg a hyfforddiant yn cael ei galw'n flwyddyn hyfforddiant sylfaenol (y cyfeiriwyd ati'n flaenorol fel cam cyn cofrestru), a bydd yn darparu gwell goruchwyliaeth, cefnogaeth a chydweithio rhwng sefydliadau addysg uwch, cyrff addysg statudol a chyflogwyr, a hefyd yn rhoi mwy o bwyslais ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, i fynd i'r afael â gwahaniaethu ac anghydraddoldebau iechyd.

Bydd gweithredu'r safonau newydd yn effeithiol yn dibynnu nid yn unig ar waith yn AaGIC, ond hefyd ar allu'r holl randdeiliaid i gydweithredu tuag at eu datblygiad, a sicrhau'r adnoddau angenrheidiol, gan gynnwys cyllid, i gyflawni'r canlyniad gofynnol.

Mae'n hanfodol bod myfyrwyr fferylliaeth nawr ac yn y dyfodol yn ymgysylltu â ni ar y daith hon ac yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r cyfleoedd gyrfa sylweddol a fydd ganddynt drwy'r datblygiad cyffrous hwn.

Y diweddaraf am Fferyllwyr Sylfaen Cyn Cofrestru

Mae AaGIC wedi datblygu un o'r blociau adeiladu ar gyfer y safonau newydd drwy'r rhaglen hyfforddiant cylchdroi aml-sector canolog newydd, i roi hyfforddiant mewn ymarfer i fferyllwyr sylfaen cyn cofrestru. Mae hyn yn golygu bod hyfforddeion yn treulio cyfanswm o bedwar mis ym mhob un o'r sectorau cymunedol, gofal sylfaenol a fferyllfeydd mewn ysbytai, gyda chymorth oddi ar y safle gan AaGIC.



Mae Cymru yn arwain y ffordd gyda hyfforddiant i fferyllwyr sylfaen cyn cofrestru yn y DU gyda'r model newydd hwn, gan gyfrannu at greu gweithlu fferylliaeth hyblyg gyda'r sgiliau a'r cymhwysedd i gyflawni gweledigaeth "Cymru Iachach": gweithlu sy'n gallu gweithio, cyfathrebu a deall y llwybr gofal cleifion cyfan sy'n hanfodol ar gyfer rheoli a darparu gwasanaethau cleifion yn effeithlon. Drwy ddatblygu ein rhaglen hyfforddi cylchdroi aml-sector, mae'r AaGIC wedi ymateb i'r angen brys sydd wedi'i flaenoriaethu i drawsnewid

hyfforddiant i fferyllwyr sylfaen cyn cofrestru, er mwyn rhoi'r sgiliau i weithlu fferylliaeth y dyfodol allu gweithio ym mhob sector ac ar draws pob un ohonynt.

Y llynedd, 2020, cafodd y rhaglen hon ei rhoi ar waith yn ardaloedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Betsi Cadwaladr. O fis Awst 2021 ymlaen, bydd byrddau iechyd eraill ledled Cymru yn dechrau cyflwyno'r rhaglen hyfforddi newydd hon. Mae cyfradd llenwi swyddi'r Oriel ar gyfer rhaglenni aml-sector Cymru 2021/22 yn 100%.

Ar hyn o bryd, rydym yn cynllunio ar gyfer ein carfanau o hyfforddeion y dyfodol, gan ddechrau gyda'r garfan nesaf ym mis Awst 2021. Mewn llawer o fyrddau iechyd, bydd hyfforddeion yn cael eu cofrestru'n lleol ar y rhaglen cylchdroi aml-sector hon. Oherwydd twf/estyniad y rhaglen hyfforddi, rydym ar hyn o bryd yn ymgysylltu â rhanddeiliaid gofal sylfaenol, gan geisio sicrhau lleoliadau hyfforddiant mewn fferyllfeydd cymunedol a phractisiau meddyg teulu, lle bydd hyfforddeion yn treulio cyfanswm o bedwar mis ym mhob un o'r sectorau hyn yn ystod eu blwyddyn sylfaen cyn cofrestru. Darperir adnoddau allweddol gan AaGIC i gefnogi'r rhaglen, gan gynnwys llawlyfrau hyfforddi a hyfforddiant goruchwylwyr addysgol, ynghyd â threfniadau ariannol i gefnogi safleoedd hyfforddi.

Rydym yn cysylltu â fferyllwyr cymunedol, fferyllwyr gofal sylfaenol a phractisiau meddygon teulu ledled Cymru am ddatblygiadau hyfforddi fferyllwyr sylfaen cyn cofrestru a'r cyfle i gymryd rhan yn y rhaglen hyfforddi hon yn eich ardaloedd lleol. Mae cyfathrebiadau gan AaGIC wedi cael eu rhaeadru i fferyllfeydd cymunedol a phractisiau meddyg teulu ledled Cymru i gofrestru datganiadau o ddiddordeb ar gyfer rhaglenni sy'n dechrau fis Awst 2021 a'r flwyddyn ganlynol.

I gael rhagor o wybodaeth am y cyfle hwn ac i drafod ymhellach, cysylltwch â'r Arweinydd Rhanbarthol ar gyfer eich ardal:

Rôl AaGIC	Enw	Cyfeiriad e-bost
Pennaeth Sylfaen Cyn Cofrestru	Laura Doyle	Laura.Doyle3@wales.nhs.uk
Arweinydd Rhanbarthol Sylfaen Cyn Cofrestru - Gogledd *ar gyfer ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr*	Anna Hughes	Anna.hughes@wales.nhs.uk
Arweinydd Rhanbarthol Sylfaen Cyn Cofrestru – De Orllewin *ar gyfer ardaloedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Bwrdd Iechyd Hywel Dda*	Llynwen Jones	Llynwen.jones5@wales.nhs.uk
Arweinydd Rhanbarthol Sylfaen Cyn Cofrestru – De Ddwyrain *ar gyfer ardaloedd Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys*	Laura Humphrey or Ffion Hawkins-Davies	Laura.humphrey@wales.nhs.uk or Ffion.hawkins-davies@wales.nhs.uk
Arweinydd Rhanbarthol Sylfaen Cyn Cofrestru – De Ddwyrain *ar gyfer ardaloedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan*	Martyn Jayne	Martyn.jayne2@wales.nhs.uk
Arweinydd Gweithredol Sylfaen Cyn Cofrestru	Bethan Broad	Bethan.broad2@wales.nhs.uk
Cefnogaeth Weithredol Sylfaen Cyn Cofrestru	Natalie Stansfield	Natalie.stansfield@wales.nhs.uk

Datblygiadau mewn optometreg

Diwygiadau contract

Mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cytuno ar ddogfen Dull Gweithredu'r Dyfodol ar gyfer Gwasanaethau Optometreg sy'n dynodi'r newid mwyaf mewn optometreg gofal sylfaenol yng Nghymru mewn cenhedlaeth. Mae AaGIC yn cyfrannu at y trafodaethau diwygio yn Llywodraeth Cymru drwy ein Cymrodyr Hyfforddiant Arweinyddiaeth Glinigol Cymru (WCLTF). Mae Tim Morgan yn arwain ar atal, gyda Llywodraeth Cymru yn edrych ar sut gallai contract newydd alluogi optometryddion i gyfrannu at fesurau ataliol iechyd, gan gynnwys y claf yn y broses o wneud penderfyniadau a rhoi cyngor. Mae Tim hefyd yn dadansoddi sut gall optometryddion ddarparu gofal iechyd cynaliadwy, gan sicrhau dadansoddiad o gostau darparu gwasanaethau lle mae costau ariannol, costau effaith ar yr unigolyn a chostau amgylcheddol i gyd yn cael eu hystyried yn eu cyfanrwydd.

Mae Sarah Schum, ein WCLTF arall, yn sicrhau bod gennym ddata cadarn am y gweithlu ym maes gofal sylfaenol, sy'n cynnwys optometryddion, optegwyr sy'n cyflenwi, optegwyr lensys cyffwrdd a staff practis. Bydd siâp ein gweithlu presennol yn gallu cael ei werthuso'n briodol a chyfrannu at ddarparu gwasanaethau optometreg gofal sylfaenol yn y dyfodol.

Yn olaf, mae Nik Sheen, pennaeth trawsnewid optometreg yn AaGIC, yn darparu'r addysg a'r mewnbwn datblygu gyda'r nod o uwchsgilio optometryddion a'u cefnogi pan fyddant yn cymryd rolau clinigol ychwanegol ac, yn hollbwysig, yn eu galluogi i ddod yn fwy medrus wrth reoli a derbyn risg glinigol.

Gellir gweld dogfen Dull Gweithredu'r Dyfodol drwy ddilyn y dolenni hyn:

- Cymraeg: **https://llyw.cymru/gofal-iechyd-llygaid-gig-cymru-dull-gweithredu-ar-gyfer-gwasanaethau-optometreg-yn-y-dyfodol**.
- Saesneg: **https://gov.wales/nhs-wales-eye-health-care-future-approach-optometry-services**



Mentora

Fe wnaeth rhaglen fentora newydd i gefnogi optometryddion sydd newydd gymhwyso yng Nghymru redeg rhwng mis Chwefror a mis Medi 2020. Roedd y cynllun peilot hwn yn cynnig sesiynau mentora un-i-un a thrafodaethau grŵp cymheiriaid i optometryddion a oedd wedi cymhwyso'n ddiweddar.

Roedd canlyniadau'r gwerthusiad yn dangos llwyddiant y rhaglen fentora, i'r mentorwyr a'r rhai a fentorwyd, er gwaethaf heriau COVID, gan gynnwys ffyrlo yn ystod y rhaglen a diffyg cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Roedd pawb yn 'cytuno'n gryf' bod y cynllun mentora yn ddefnyddiol yn gyffredinol; pob un yn 'cytuno' neu 'cytuno'n gryf' y byddent yn argymell y cynllun i gydweithwyr ac y byddent yn hoffi parhau gyda mentor pe bai'r cyfle'n codi. Yn y cyfweliadau gyda'r rhai sy'n cael eu mentora, ystyriwyd bod y cynllun yn 'pontio'r' bwlch rhwng y cyfnod cyn cofrestru a newydd gymhwyso.

Roedd yr ystyriaethau yn y dyfodol yn cynnwys:

- dull mwy cyfunol, gan gynnwys cyfarfodydd wyneb yn wyneb a chyfarfodydd o bell
- cynnig mentora yn syth ar ôl cymhwyso i fwy o unigolion
- darparu mwy o gyngor ar gyfleoedd dysgu, datblygu gyrfa a chymwysterau pellach
- canfod 'prif fentor' a system gyfeillio ar gyfer mentoriaid newydd
- creu mwy o gyfle i gael trafodaeth anffurfiol gyda'r mentor a chefnogaeth barhaus.



Datblygu a chefnogi'r tîm aml-broffesiynol

Y Rhaglen Staffio Nyrsys – nyrsys ardal ac ymwelwyr iechyd

Mae'r Rhaglen Staffio Nyrsys yn cefnogi GIG Cymru i gyflawni gofynion Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 drwy ddatblygu a gweithredu adnoddau cynllunio gweithlu sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae hyn yn galluogi sefydliadau i gyfrifo'r nifer a'r cyfuniad sgiliau cywir o staff nyrsio sydd eu hangen i ddarparu gofal effeithiol i gleifion.

Mae Nyrsys Ardal ac Ymwelwyr Iechyd yn ddwy o'r pum ffrwd waith yn y Rhaglen Staffio Nyrsys. Jody Hill yw Arweinydd y Prosiect Nyrsys Ardal a bydd yn arwain y gwaith o brofi'r Lefelau Gofal Cymreig drafft ar gyfer nyrsys ardal yn 2021. Mae hyn yn golygu y bydd y fersiwn derfynol ar gael pan fydd ail ddyletswydd Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) yn cael ei hymestyn i wasanaethau nyrsio ardal.

Mae'r broses a ddefnyddiwyd i ddyfeisio'r adnodd aciwtedd cleifion dros y 3 blynedd diwethaf wedi bod drwy weithdai ymgysylltu lleol a chenedlaethol ledled Cymru, sy'n cynnwys cannoedd o nyrsys ardal. Roedd y nyrsys yn cymryd rhan mewn ymarferion cyfranogol a ddefnyddiodd eu gwybodaeth am sut y gellid disgrifio'r cleifion dibynnol ac aciwt y maent yn eu gweld o ddydd i ddydd, o dan system haenog. Roedd aciwtedd, dibyniaeth a risg yn cael eu sgorio rhwng 1- gofal sefydlog a rheolaidd hyd at 5- ansefydlog ac mewn argyfwng.

Mae nyrsys ardal wedi ymrwymo i ddatblygu a phrofi'r adnodd a fydd, yn eu barn nhw, yn gyfrwng i'w galluogi i fynegi anghenion eu llwyth achosion a llywio cynlluniau eu gweithlu.

I gael rhagor o wybodaeth neu hyfforddiant, cysylltwch â **jody.hill4@wales.nhs.uk**.

Mae'r ffrwd waith ymwelwyr iechyd yn datblygu Lefelau Gofal Cymru sy'n benodol i'r gofal a'r cymorth maent yn eu rhoi i blant a theuluoedd. Ar hyn o bryd mae themâu'n cael eu harchwilio a'u mireinio, ond maent yn cynnwys meysydd fel datblygiad plant, magu plant ac arsylwi, asesu a risg. Drwy gydol gweddill 2020/21, bydd gwaith yn parhau ledled Cymru i fireinio a phrofi Lefelau Gofal Cymru.

Am ragor o wybodaeth anfonwch e-bost at **Rebecca.boore2@wales.nhs.uk**.

Arweinyddiaeth

Lansiwyd Gwella, llwyfan arweinyddiaeth ddigidol Cymru, ym mis Awst 2020 ac mae'n darparu amrywiaeth eang o adnoddau arweinyddiaeth dosturiol, hygyrch, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan gynnwys darlleniadau byr, gweminarau, offer arweinyddiaeth, fframweithiau ac erthyglau.

Mae 'Gwella' ar gael yn rhad ac am ddim i'r holl staff gofal sylfaenol, ac nid oes angen mewngofnodi. I gael gafael ar yr adnoddau arweinyddiaeth hyn o unrhyw ddyfais symudol, rhowch y canlynol yn eich peiriant chwilio: **https://nhswalesleadershipportal.heiw.wales/**.

Yn ogystal â mynediad at adnoddau arweinyddiaeth gwerthfawr, mae Gwella yn darparu diweddariadau a newyddion am raglenni datblygu arweinyddiaeth gan amrywiaeth o ddarparwyr arbenigol, gan gynnwys y Brifysgol Agored a The Kings Fund.

Dros y misoedd nesaf, bydd AaGIC yn cynnal cyfres o ddosbarthiadau meistr, gweminarau a blogiau arweinyddiaeth dosturiol, a bydd pob un ar gael am ddim i'n gweithlu iechyd, gofal cymdeithasol a gofal sylfaenol.

Cafodd Gwella ei gydnabod yn ddiweddar gydag AaGIC, gan ennill gwobr **Aur yng Ngwobrau Technolegau Dysgu 2020** am y trawsnewidiad digidol gorau mewn ymateb i COVID-19.

I gael rhagor o wybodaeth, neu i drafod sut gall y Gweithlu Gofal Sylfaenol fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd arweinyddiaeth gan AaGIC, cysylltwch â Helen Thomas, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Arweinyddiaeth ac Olyniaeth: **Helen.Thomas30@wales.nhs.uk**.

Rhaglen Meddygon y Genhedlaeth Nesaf yng Nghymru

Mae Tîm Arweinyddiaeth a Chynllunio Olyniaeth AaGIC yn gyffrous i gyhoeddi lansiad Rhaglen Meddygon y Genhedlaeth Nesaf yng Nghymru (Next Generation GP).

Rydym yn noddi'r rhaglen arloesol hon sydd wedi'i hariannu'n llawn ac sy'n ceisio ysbrydoli arweinwyr y dyfodol mewn Ymarfer Cyffredinol.

Mae rhaglen Meddygon y Genhedlaeth Nesaf yng Nghymru (Next Generation GP) yn cynnwys 6 digwyddiad rhithwir gyda'r nos rhwng Mai a Medi 2021 trwy Zoom sy'n anelu at:

- **EGNIOLI**
- **YMGYSYLLTU**
- **AWDURDODI**

Gwahoddir ymgeiswyr i gyflwyno mynegiad byr iawn o ddiddordeb yn amlinellu eu cymhelliant i ymgeisio i'r rhaglen. Mae ceisiadau bellach ar agor trwy **http://bit.ly/ApplicationformNGGP** a byddant yn cau am 9pm ddydd Gwener 23 Ebrill 2021.

Gellir gweld fideo am y rhaglen yn: **http://bit.ly/NGGPvideo**.

Am ragor o wybodaeth, ewch i ymweld â'r wefan, **https://www.nextgenerationgp.co.uk/**, neu os hoffech chi gysylltu, gallwch anfon e-bost at **nextgenerationgpwales@gmail.com**.

Adsefydlu

Mae Gofal Sylfaenol yn chwarae rhan bwysig o ran cynyddu gwerth ymyriadau adsefydlu ac adfer ar gyfer ystod eang o gyflyrau iechyd, gan gynnwys COVID-19, gan mai dyma'r pwynt cyswllt cyntaf gyda gwasanaeth ffurfiol i'r rhan fwyaf o bobl yng Nghymru.

Mae gan ofal sylfaenol y cyfle unigryw i ymgysylltu â phobl Cymru drwy fodelau ymyrraeth gynnar sy'n ceisio cyfeirio pobl at y gwasanaethau iawn ar yr adeg iawn, er mwyn cael y lefel iawn o gefnogaeth ar gyfer effaith gorfforol, emosiynol a chymdeithasol salwch neu anaf.

Mae AaGIC wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â Byrddau Iechyd, y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol, a Llywodraeth Cymru i adolygu a diweddaru'r **Canllawiau Adsefydlu, y Fframwaith Adsefydlu ar gyfer parhad ac adferiad** (a gyhoeddwyd yn ystod haf 2020), ac i ddatblygu **adnodd digidol** i helpu'r gweithlu i ystyried adsefydlu fel 'busnes pawb' ac i fagu hyder wrth fabwysiadu dull galluogi ar draws y system iechyd a gofal.

Mae paratoadau ar y gweill er mwyn i AaGIC gydlynu gweithrediad **Fframwaith Proffesiynau Perthynol i Iechyd: Edrych Ymlaen Gyda'n Gilydd**. Mae'r fframwaith hwn yn galw am weddnewid gwasanaethau Proffesiynau Perthynol i Iechyd yng Nghymru, gan godi proffil gwasanaethau adsefydlu a pherthynol i iechyd eraill, gwella mynediad at y gwasanaethau hyn a sicrhau gwell canlyniadau i ddinasyddion Cymru.

Gwneud penderfyniadau da

Mae staff clinigol yn gweithio mewn sefyllfaoedd cymhleth ac maent wedi sylweddoli ar werth dull wedi'i hwyluso i gynyddu eu hyder mewn perthynas â gwneud penderfyniadau clinigol uwch. Mae cleifion yn elwa o gael trafodaethau agored a gonest gyda staff clinigol yn seiliedig ar yr hyn sy'n bwysig iddynt, tra bo staff yn teimlo eu bod yn gallu cael trafodaethau a chodi pynciau sydd weithiau'n anodd ac yn heriol.

Mae nifer o staff ym maes Gofal Sylfaenol, ynghyd â chymheiriaid mewn gofal eilaidd, wedi cael hyfforddiant i gefnogi'r dull hwn o weithredu drwy raglen hyfforddi 'Nodau Gofal'. Mae'r galw am yr hyfforddiant hwn wedi cynyddu'n sylweddol dros y 2 flynedd diwethaf, felly mae AaGIC yn recriwtio 4 clinigwr rhan amser i gyflwyno'r rhaglen ar draws gofal Sylfaenol ac eilaidd yng Nghymru o dan faner Gwneud Penderfyniadau Cydweithredol Integredig (ICDM).

Mae'r rhaglen, sydd wedi'i hanelu at glinigwyr gradd ganol, yn fframwaith pwerus ar gyfer rhesymu proffesiynol wrth wneud penderfyniadau, deall Dyletswydd Gofal, cydnabod yr angen i ail-gydbwyso risg, a derbyn pa bryd y bydd cymorth yn gwneud niwed. Mae'r rhaglen yn llwyddo i sbarduno newid diwylliannol ac fe'i cyflwynir i dimau amlbroffesiwn.

Rhannwch y cylchlythyr hwn gyda'ch cydweithwyr ym maes gofal sylfaenol a'r gymuned.

I gael eich ychwanegu at ein rhestr bostio i dderbyn diweddariadau gofal sylfaenol yn AaGIC, e-bostiwch:
HEIW.Communications@wales.nhs.uk

Os ydych chi am ddad-danysgrifio, e-bostiwch **HEIW.Communications@wales.nhs.uk** a byddwch yn cael eich tynnu oddi ar y rhestr.